SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

© Hawlfraint y Goron 2016 WG29477 ISBN digidol 978 1 4734 7222 8

# Cynnwys

1. Diben .......... 2
2. Trosolwg .......... 2
3. Themâu Allweddol .......... 3
4. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith .......... 3
5. Llywodraethu ac Atebolrwydd .......... 3
6. Ymgysylltu .......... 4
7. Gwaith Arolygu .......... 5

## 1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw prif arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Bod profiad dinasyddion o ofal iechyd yn cael ei wella
- Bod dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig ac yn ychwanegu gwerth.

## 2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, ni chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiad o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Fodd bynnag, fe wnaeth ein harolygiad bwrdd iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ymdrin â gofal heb ei drefnu yn ysbytai cyffredinol Llwynhelyg, Glangwili a Bronglais, a bu arsylwadau'n ymwneud ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## 3. Themâu Allweddol

Yn ystod yr arolygiad yn Adran 2, casglwyd y wybodaeth ganlynol yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru:

- O'r cleifion a gyrhaeddodd un o'r ysbytai mewn ambiwlans ac a gwblhaodd ein holiaduron cleifion, rhoddodd pob un o'r chwe chlaf adborth cadarnhaol ynglŷn â'u profiad gyda'r gwasanaeth ambiwlans.

- Roedd meysydd o arfer da yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg lle'r oedd ambiwlans neilltuedig ar gyfer trosglwyddo plant i ysbytai cyfagos priodol mewn da bryd (oherwydd y diffyg adran bediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg). Roedd ardal benodol ar gael hefyd i ambiwlansys yn gyffredinol i aros dros dro a throsglwyddo cleifion i droli tra'u bod yn aros i weld aelod o'r staff clinigol.

## 4. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Ni anfonwyd llythyrau dilynol na llythyrau sicrwydd ar unwaith i'r ymddiriedolaeth.

## 5. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*.[1] Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac yn eu comisiynu.

Gweledigaeth Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw 'Gwasanaeth ambiwlans blaenllaw sy'n darparu'r gofal gorau posibl trwy weithlu medrus, proffesiynol ac iach'.

---

[1] Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau hunanasesiad o'u sefyllfa o ran modiwl llywodraethu ac atebolrwydd Safonau Gofal Iechyd Cymru, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer eu haeddfedrwydd ar raddfa o 1-5.

I atgyfnerthu ymgysylltiad Bwrdd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru â'r modiwl, ac er mwyn iddo gymryd perchnogaeth drosto, defnyddiwyd holiadur ar-lein i gasglu safbwyntiau aelodau'r bwrdd yn ddienw. Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd i AGIC gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer 2014-15 yn nodi'r canlynol:

O dan bob un o'r tair thema – ‘Pennu'r Cyfeiriad', 'Galluogi Cyflenwi' a 'Cyflenwi Canlyniadau, Cyflawni Rhagoriaeth' – roedd yr ymddiriedolaeth o'r farn ei bod wedi dangos aeddfedrwydd ar Lefel 3 – 'mae'r ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau a phrosesau, ac mae’n gallu dangos cynnydd mewn rhai o'n meysydd allweddol ni ar gyfer gwella’. Nid oedd y sgoriau hyn wedi newid ers 2013-14, ond roedd yr ymddiriedolaeth o'r farn bod gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd pwysig.

Yn yr hunanasesiad, gwnaeth yr ymddiriedolaeth dynnu sylw at y ffaith ei bod wedi datblygu Cynllun Busnes Integredig Tymor Canolig tair blynedd (2015-18) i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a'i bod hefyd wedi ehangu ac ail-lunio ei strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth er mwyn cyflawni ei gweledigaeth a'i strategaeth, ond gwnaeth gydnabod y byddai angen ymgorffori'r strwythur. Gwnaeth yr ymddiriedolaeth hefyd dynnu sylw at y ffaith ei bod yn sefydlu fframwaith rheoli perfformiad cadarn er mwyn sicrhau bod pob elfen o'r cynllun tair blynedd yn cael ei darparu. Er bod y sylwadau a roddwyd yn yr holiaduron ar-lein yn ffafriol, gwnaeth yr ymddiriedolaeth nodi bod y canlyniadau'n dangos bod rhywfaint o le i wella o hyd.

Yn ogystal, gorffennodd Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015 ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru trwy nodi: "Mae'r ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran ei threfniadau llywodraethu, ac mae ei pherfformiad mewn meysydd allweddol yn gwella. Fodd bynnag, mae diffyg sylfaenol o ran y strwythur llywodraethu o hyd. Mae gan yr ymddiriedolaeth gynlluniau ar waith i roi sylw i hyn."

## 6. Ymgysylltu

Yn ystod y flwddyn, cyflwynodd y rheolwr perthynas adroddiad blynyddol AGIC i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ystod eu Diwrnod Datblygu’r Bwrdd ar 18 Mehefin 2015.

Gwnaeth y rheolwr perthynas fynychu cyfarfod ansawdd, profiad y claf, a diogelwch Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 3 Rhagfyr 2015, a gwnaeth hefyd gyfarfod ag arweinydd ansawdd, arferion clinigol a gwelliannau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 10 Mehefin a 3 Rhagfyr 2015. Gwnaeth gyfarfod â'u cyfarwyddwr ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf newydd ar 10 Mawrth 2016.

Ar bob achlysur, mae'r ymddiriedolaeth wedi ymateb i geisiadau ar gyfer cyfarfodydd a gwahanol ddogfennau yn gadarnhaol ac yn ddi-oed. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn rhan o'r cyswllt parhaus â'r ymddiriedolaeth.

Ym mis Medi 2015, gwnaeth AGIC hefyd ymateb i ymgynghoriad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ynglŷn â'r copi drafft o'u strategaeth gwella ansawdd.

Gwnaeth rheolwr perthynas AGIC ac arweinydd archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru gyfarfod a gohebu yn ystod y flwyddyn er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol oedd gan y ddau sefydliad.

## 7. Gwaith Arolygu

**Arolygiadau'r bwrdd iechyd mewn adrannau achosion brys ysbyty pan arsylwyd ar yr ymadweithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

| | |
|---|---|
| 1. Hywel Dda (Llwynhelyg, Glangwili, Bronglais) | 11 a 12 Awst 2015 |